Cymhorthydd Dysgu Lefel 2 x 5 swydd

Cyfeirnod y Swydd: YYGC00259W1RDE
Lleoliad: Ysgol Glan Clwyd
Cyflog: Graddfa 3 (£14,259 - £14,835)
Oriau: 32.50 awr yr wythnos, Tymor Ysgol + 5 HMS
Math o gytundeb: Swydd Parhaol i ddechrau 01/11/2021
Swydd allanol

Hoffech chi ymuno â'r Tim o Gymhorthyddion yma yn Ysgol Glan Clwyd?
Gwahoddir ceisiadau gan ymgeiswyr brwdfrydig ac ymroddgar i ymgeisio am y Swyddi uchod yn yr ysgol hapus a llwyddiannus hon.

Rydym yn chwilio am Gymorthyddion Dysgu brwdfrydig sydd â sgiliau trefnu ardderchog. Bydd deilydd y swydd yn gweithio o dan gyfarwyddyd uniongyrchol staff dysgu yn y dosbarth, gydag athro fel arfer, i helpu disgyblion i ddysgu a rhoi cymorth yn gyffredinol i athrawon gyda rheoli disgyblion a'r dosbarth.

Mae'n hanfodol fod gennych sgiliau Llythrennedd a Rhifedd ardderchog a gwybodaeth sylfaenol am ddefnyddio systemau cyfrifiadurol.

Bydd y penodiad yn amodol ar Wiriad gan y Swyddfa Cofnodion Troseddol.

Os hoffech fwy o fanylion am y swydd uchod, gellir cysylltu a'r ysgol ar 01745 582611.

Os oes gennych ddiddordeb yn y swydd hon, gwnewch gais ar-lein drwy wefan www.sirddinbych.gov.uk; mae'n rhaid i ymgeiswyr lenwi ein ffurflen gais i gael eu hystyried.

Mae'n ddrwg gennym nad ydym yn gallu ateb pob cais. Os nad ydych wedi derbyn ateb o fewn pythefnos o'r dyddiad cau, fe ddylech gymryd yn ganiataol nad ydych ar y rhestr fer ar gyfer cyfweliad.

Dyddiad Cau: **Dydd Iau 07/10/21**

This Advert is for Teaching Assistants at Ysgol Glan Clwyd for which the ability to speak Welsh is an essential requirement.

Mae Cyngor Sir Ddinbych yn ymroddedig i Gyfle Cyfartal a'i Safonau Iaith Gymraeg. Rydym yn croesawu ceisiadau yn y Gymraeg. Sylwch na fydd unrhyw ffurflenni cais a dderbynnir yn y Gymraeg yn cael eu trin yn llai ffafriol na ffurflenni cais a gyflwynwyd yn Saesneg.